

## **RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Iau, 3 Mawrth 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm dydd Mawrth, 8 Mawrth 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Mercher, 16 Mawrth 2022.

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cyngorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dafydd Roberts

**Ymddiheuriadau:** Dim

(9:30am - 11:30am)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Cofnodion</b> Amherthnasol
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022 fel rhai cywir.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Amherthnasol</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Amherthnasol</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Amherthnasol</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Amherthnasol</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b> <ul style="list-style-type: none"><li><b>Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn</b></li></ul>

	<p>Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwylidig ar gyfer 2021/22. Mae'r sefyllfa hon yn ddibynnol ar gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r golled incwm ariannol a'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r Coronafeirws.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.</li> <li>• Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni Buddsoddi i Arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.</li> <li>• Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD yr adroddiad.</li> <li>• Yn sgil y tanwariant a ragwelir ar Gyllideb Refeniw 2021/22, argymhell buddsoddi £500k ychwanegol ar gynnal Priffyrdd.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Monitro perfformiad Cyllideb Refeniw 2021/22</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>5 Monitro Cyllideb Cyfalaf – Chwarter 3, 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2021/22 yn Chwarter 3.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Monitro perfformiad Cyllideb Gyfalaf</b>

	<b>2021/22</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd nodi'r canlynol –</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2021/22.</li> <li>• Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2021/22.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>7 Alldro Rheoli Trysorlys 2020/21</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2020/21 a chyfeirio'r adroddiad i sylw'r Cyngor Llawn.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Yn unol â rheoliadau a Chynllun Dirprwy Rheoli Trysorlys y Cyngor</b>

DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2022

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>8 Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd derbyn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 ac argymhell y Datganiad i'r Cyngor Llawn.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2022

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad ar yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn ar gyfer 2021/22 a chyfeirio'r adroddiad at y Cyngor Llawn.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Yn unol â rheoliadau a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor</b>

DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2022

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>10 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymunedol nad ydynt yn rhai Preswyl - 2022/23 Ffioedd a Thaliadau</b> Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellir hwy yn Nhabl A yr adroddiad</b> Haen 1 - bydd pawb yn talu £50.83 y chwarter Haen 2 a 3 - bydd pawb yn talu £101.27 y chwarter</li> <li>• <b>Taliadau Teleofal Blynyddol fel yr amlinellir yn Nhabl B yr adroddiad</b>  <b>Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £121.07</b> <b>Gwasanaethau yn unig £78.25</b> <b>Costau gosod untro £48.41</b></li> <li>• <b>Cyfradd o £13.10 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol</b></li> <li>• <b>Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer costau gweinyddu mewn perthynas â cheisiadau am Fathodyn Glas a darparu bathodynnewydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad</b></li> <li>• <b>Cynnydd o 6.73% i £37.58 yn y ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol.</b></li> <li>• <b>Cynnydd o £1.36 yr awr yn y ffioedd Gofal Cartref i gydymffurfio â</b></li> </ul>

	<p>deddfwriaeth newydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel y nodir yn Nhabl C yr adroddiad</li> </ul> <p>Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) £6.60</p> <p>Byrbryd canol dydd mewn Gwasanaethau Dydd i bobl ag anableddau dysgu £2.80</p> <p>Lluniaeth arall (te/coffi/cacen) mewn Gwasanaethau Dydd £1.55</p>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Gosod ffioedd a thaliadau gwasanaethau gofal cymdeithasol nad ydynt yn rhai preswyl ar gyfer 2022/23 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Mae'n rhan o'r broses gosod cyllideb sy'n cael ei phenderfynu gan y Cyngor Llawn.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p><b>11 Cartrefi Pobl Hŷn yr Awdurdod Lleol – Gosod y Ffioedd Safonol ar gyfer 2022/23</b></p> <p>Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion</p>
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 yn cael ei osod ar £801.53 yr wythnos.</li> <li>Bod y ffi llawn wythnosol fesul preswlydd ar gyfer cartrefi'r Awdurdod yn cael ei osod ar lefel sy'n cyfateb i gost lawn y gwasanaeth, sef £801.53 yr wythnos.</li> </ul>

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Gosod y ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 yn unol â deddfwriaeth.</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Mae'n rhan o'r broses gosod cyllideb sy'n cael ei phenderfynu gan y Cyngor Llawn.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>12 Ffioedd a Thaliadau 2022/23</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cymeradwyo'r atodlen Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellir yn y llyfryn a gyflwynwyd.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Gosod lefel ffioedd a thaliadau nad ydynt yn rhai gofal cymdeithasol ar gyfer 2022/23</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Mae'n rhan o'r broses gosod cyllideb sy'n cael ei phenderfynu gan y Cyngor Llawn.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>13 Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2022/23</b> Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b>  <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru, fel y'i gweithredwyd</b></li> </ul>

	<p>hyd yn hyn gan Awdurdodau Gogledd Cymru, fel sail i osod ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2022/23 (Atodiad 1 yn yr adroddiad).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyo'r argymhelliad i godi lefel y ffioedd fel a ganlyn:</li> </ul> <p>Gofal Preswyl (Oedolion) - £636.80  Preswyl (EMI) - £707.17  Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £703.79 + elfen FNC Awdurdod Lleol (i'w gadarnhau)  Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £800.88 + elfen FNC Awdurdod Lleol (i'w gadarnhau)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn unol ag Awdurdodau eraill, awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Cyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i archwilio eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sail i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Unrhyw eithriadau i'w cytuno gyda'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Oedolion o'r cyllidebau presennol.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Gosod lefelau ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2022/23
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Cynghorydd Richard Dew
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Mae'n rhan o'r broses gosod cyllideb sy'n cael ei phenderfynu gan y Cyngor Llawn.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p><b>14 Y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Chyllideb 2022/23</b></p> <p>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151</p>



## PENDERFYNIAD

### Penderfynwyd -

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb a'r adborth a gafwyd, fel yr amlinellir yn Adran 3 o Atodiad 1
- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 7 o Atodiad 1 ac Atodiad 2
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio tuag at sicrhau balansau cyffredinol o £7.9m ar y lleiaf
- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir hwy yn Adran 5 o Atodiad 1
- Argymell cyllideb net o £158.367m ar gyfer y Cyngor Sir a chynnydd o 2.00% yn lefel y Dreth Gyngor yn sgil hynny (£26.82 – Band D) i'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau a godir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Mawrth 2022
- Gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol trwy ddefnyddio'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2022/23, neu drwy wneud cyfraniad i / o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor
- Cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn
- Dirprwyo grym i'r Swyddog Adran 151 ryddhau cyllid o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol, sef hyd at £50k ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni cheir cymeradwyo unrhyw eitem sy'n fwy na £50k heb gytundeb y Pwyllgor Gwaith ymlaen llaw

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cynyddu i 50% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer cartrefi gwag.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Cwblhau cynigion Cyllideb Refeniw'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23 yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2022</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>15 Strategaeth Gyfalaf</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf am 2022/23, fel y manylir arni yn Atodiadau 1 a 2 yn yr adroddiad, ac argymhell bod y Cyngor llawn yn ei chymeradwyo.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Argymhell Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yn unol â gofynion CIPFA a Chyfansoddiad y Cyngor.</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2022</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>16 Cyllideb Gyfalaf Derfynol 2022/23</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
------------------------	---

PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd argymell y rhaglen gyfalaf a ganlyn ar gyfer 2022/23 i'r Cyngor Llawn –</p> <p style="text-align: right;">£'000</p> <p>Cynlluniau 2021/22 a ddygwyd ymlaen 1,322</p> <p>Adnewyddu/Amnewid Asedau 5,042</p> <p>Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd 1,432</p> <p>Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (i'w hariannu o Gronfeydd Wrth Gefn a Benthycu Digymorth) 783</p> <p>Ysgolion yr 21ain Ganrif 8,598</p> <p>Cyfrif Refeniw Tai 18,784</p> <p><b>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2022/23 35,961</b></p> <p>Cyllidir gan –</p> <p>Grant Cyfalaf Cyffredinol 1,486</p> <p>Benthycu â Chymorth Cyffredinol 2,157</p> <p>Balansau Cyffredinol 1,681</p> <p>Ysgolion yr 21ain Ganrif – Benthycu â Chymorth 1,168</p> <p>Ysgolion yr 21ain Ganrif – Benthycu heb Gymorth 5,261</p> <p>Cronfa Wrth Gefn y CRT a Gwarged yn ystod y flwyddyn 10,099</p> <p>CRT – Benthycu heb Gymorth 6,000</p> <p>Derbyniadau Cyfalaf 600</p> <p>Grantiau Allanol 4,854</p> <p>Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 1,195</p> <p>Benthycu heb Gymorth y Gronfa Gyffredinol 138</p> <p>Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen 1,322</p> <p><b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2022/23 35,961</b></p>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Cwblhau cynigion Cyllideb Cyfalaf y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23 yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>17 Polisi Rhyddhad Disgreswin y Dreth Gyngor</b> Report by the Director of Function (Resources)/Section 151 Officer
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn argymhell i'r Cyngor Llawn bod y newidiadau a nodir yn yr adroddiad yn cael eu gwneud i Bolisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor fel yr amlygir yn Atodiad A yr adroddiad o'r 1af Ebrill 2022/23.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Argymhell newidiadau i Bolisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo yn unol â'r Cyfansoddiad</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>18 Cais Posibl y Cyngor Sir i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU</b> Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cymeradwyo parhau gyda'r gwaith paratoi ar gyfer cais i'r Gronfa Codi'r Gwastad (LUF) sy'n canolbwyntio ar Gaergybi.</b></li> <li>• <b>Oherwydd ansicrwydd ynghylch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo'r awdurdod i awdurdodi'r cyflwyniad terfynol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd).</b></li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Caniatáu Swyddogion i barhau i</b>

	<b>ddatblygu a chyflwyno bid posib</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>